Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru

Mehefin 2023

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Pwrpas 3

Nodau 3

Teitl a Maint y Cymhwyster 4

Cynnwys y pwnc 4

Profiadau 4

Asesu 5

- Amcanion Asesu 5
- Cynllun Asesu 5
- Amseru ac Argaeledd Asesiadau 6
- Ailsefyll 6

Graddio 6

Cyflwyno cymwysterau i'w Cymeradwyo 7

Gofynion yn ymwneud â chyflwyno Dogfen Resymeg 7

Cyflwyniad

Mae'r *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru* hyn, a'r Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol, yn nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a *Gymeradwyir* i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt. At ddibenion y *Ddogfen Reoleiddio* hon, rydym yn cyfeirio at y rhain fel 'Cymwysterau TGAU Cymeradwy'.

Bydd Cymwysterau TGAU *Cymeradwy* yn cael eu *Cymeradwyo* am gyfnod o **5 mlynedd** ("cyfnod Cymeradwyo".) Mae'r cyfnod *Cymeradwyo* yn cychwyn o'r dyddiad cyntaf y gall *Dysgwr* ddechrau cwrs addysg sy'n arwain at ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw a bydd yn parhau tan y dyddiad olaf y gall *Dysgwr* ddechrau cwrs o'r fath. Bydd y cymwysterau hyn yn parhau i fod yn rhai *Cymeradwy* nes bod pob *Dysgwr* wedi cael tystysgrif ar gyfer y cymhwyster, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd i *Ddysgwyr* ailsefyll.

Lle mae gofynion yn ein Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol yn wahanol i'r gofynion yn y ddogfen hon, y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU fydd yn cael blaenoriaeth.

Fodd bynnag, os bydd unrhyw anghysondeb rhwng:

(a) un o ofynion ein *Hamodau Cydnabod Safonol*
(b) un o ofynion ein *Hamodau Cydnabod TGAU*
(c) un o ofynion ein *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru*
(d) un o'r gofynion yn ein *Meini Prawf Cymeradwyo* lefel pwnc TGAU

a gallu corff dyfarnu i ddarparu naill ai math penodol o Addasiad Rhesymol neu Ystyriaeth Arbennig, caiff y corff dyfarnu ddarparu'r Addasiad Rhesymol hwnnw neu'r Ystyriaeth Arbennig honno ac nid yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r gofyniad a nodir yn (a)-(d) uchod.

Rhaid darllen y *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru* ar y cyd â'n:

- *Amodau Cydnabod Arbennig*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff dyfarnu sydd am ddarparu cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru *Cymeradwy* gynnig yr ystod lawn o bynciau TGAU, a sicrhau bod y cymwysterau hynny ar gael i *Ddysgwyr* drwy gydol eu cyfnod *Cymeradwyo*, ac
- *Amodau Cydnabod TGAU*.

Pwrpas

1. Rhaid i Gymwysterau TGAU *Cymeradwy*:
    1.1. gael eu dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
    1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu trwy eu haddysg rhwng 3-14 oed
    1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
    1.4. galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
    1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Nodau

2. Rhaid i Gymwysterau TGAU *Cymeradwy*:
    2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r pwnc perthnasol
    2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
    2.3. darparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i Ddysgwyr ymgysylltu â themâu Trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru a'u hystyried. Dyma nhw:
        2.3.1. cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
        2.3.2. yr amrywiaeth o gynrychioliadau, safbwyntiau, themâu a chyfraniadau, gan gynnwys y rhai o gymunedau (ac unigolion) Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
        2.3.3. addysg cydberthynas a rhywioldeb
        2.3.4. addysg hawliau dynol, ac
        2.3.5. addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
    2.4. darparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i Ddysgwyr ymgysylltu â chynaliadwyedd ac ystyried cynaliadwyedd[1]
    2.5. bod â gofyn Cymharol i gymwysterau Lefel 1 a 2 eraill ledled y DU.

[1] Mae cynaliadwyedd yn orfodol o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru a bydd yn rhan o addysg pob dysgwr trwy gydol eu taith ddysgu.

Teitl a Maint y Cymhwyster

3. Rhaid i Gymwysterau TGAU Gradd Unigol Cymeradwy fod:
   3.1. tua maint y cymwysterau TGAU cyfatebol presennol
   3.2. yn gyflawnadwy o fewn 120-140 o oriau dysgu dan arweiniad, ac
   3.3. yn gyflawnadwy o fewn cwrs dysgu dros ddwy flynedd

4. Rhaid i Gymwysterau TGAU Dwyradd Cymeradwy fod:
   4.1. tua dwywaith maint y Cymwysterau TGAU Gradd Unigol Cymeradwy, ac
   4.2. yn gyflawnadwy o fewn 240-280 o oriau dysgu dan arweiniad

5. Rhaid i deitlau Cymwysterau TGAU Cymeradwy:
   5.1. ddefnyddio'r gair 'TGAU' ar gyfer Cymwysterau TGAU Gradd Unigol Cymeradwy
   5.2. defnyddio'r geiriau 'TGAU Dwyradd' os ydyn nhw tua dwywaith maint y Cymwysterau TGAU Gradd Unigol Cymeradwy
   5.3. cynnwys unrhyw gymeradwyaeth sy'n hysbys adeg cyflwyno'r cymhwyster i QiW

Cynnwys y pwnc

6. Rhaid i gynnwys pwnc Cymwysterau TGAU Cymeradwy:
   6.1. adlewyrchu pwrpas a nodau'r pwnc perthnasol, a chynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth berthnasol
   6.2. darparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i Ddysgwyr ddatblygu Sgiliau Cyfannol a Sgiliau Trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru, a
   6.3. darparu dilyniant addas o'r cwrs dysgu blaenorol a gwblhawyd.

Profiadau

7. Rhaid i gymwysterau TGAU Cymeradwy greu cyfleoedd i ddatblygu profiadau a sgiliau. Bydd y profiadau a'r datblygiad sgiliau hynny yn cael eu nodi yn y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol ac ni fyddant yn cael eu hasesu'n uniongyrchol.

Asesu

Amcanion Asesu

8. Rhaid i ddyluniad pob Cymhwyster TGAU Cymeradwy sicrhau:
    8.1. bod yr ystod o amcanion asesu a nodir yn y cymhwyster ar gyfer pob Cydran yn ddigonol, ac yn galluogi Dysgwr i godi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol, a
    8.2. bod pwysoliad yn cael ei roi i bob amcan asesu fel y nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo lefel Pwnc TGAU perthnasol, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canran.

Cynllun Asesu

9. Gall y trefniadau asesu ar gyfer Cymwysterau TGAU Cymeradwy fod yn llinol neu'n unedol fel y nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol.

10. Rhaid i Gymwysterau TGAU Cymeradwy Unedol:
    10.1. sicrhau bod o leiaf 40 y cant o'r asesiad yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y cwrs dysgu oni bai bod y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc perthnasol yn datgan fel arall
    10.2. nodi'r berthynas rhwng yr amcanion asesu a'r unedau asesu
    10.3. dangos yr ystod yng nghyfran y marciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob uned
    10.4. sicrhau bod canlyniadau uned yn cael eu cyfyngu gan oes weithredol y cymhwyster yn unig

11. Rhaid i Gymwysterau TGAU Cymeradwy Llinol:
    11.1. sicrhau bod yr holl asesiadau'n cael eu cynnal ar ddiwedd y cwrs dysgu
    11.2. nodi'r berthynas rhwng yr amcanion asesu a'r Cydrannau asesu, a
    11.3. dangos cyfran y marciau (wedi'u pwysoli a/neu'n amrwd) a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob Cydran.

12. Ni ddylai cymwysterau TGAU Cymeradwy gael eu haenu oni bai bod y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc perthnasol yn nodi fel arall.

13. Rhaid i'r trefniadau asesu ar gyfer Cymwysterau TGAU Cymeradwy:
    13.1. fod â gofyn Cymharol, gan gynnwys lle mae Cydrannau asesu dewisol neu gwestiynau arholiad dewisol
    13.2. gydbwyso ystyriaethau Hylawrwydd, Ymgysylltiad, Dibynadwyedd a Dilysrwydd

14. Rhaid i drefniadau asesu ar gyfer Cymwysterau TGAU Cymeradwy ymgorffori dulliau digidol, lle bo'n berthnasol, ac fel y nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol.

Amseru ac Argaeledd Asesiadau

15. Rhaid i drefniadau asesu ar gyfer cymwysterau TGAU Cymeradwy roi cyfle i Ddysgwyr gwblhau Asesiadau trwy Arholiad ac asesiadau di-arholiad yn unol â'n gofynion fel y nodir yn ein Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol a/neu ein Hamodau Cydnabod lefel cymhwyster TGAU.

Ailsefyll

16. Rhaid i drefniadau asesu ar gyfer cymwysterau TGAU Cymeradwy roi cyfle i Ddysgwyr ailsefyll cymhwyster neu uned yn unol â'r amseriadau a nodir yn ein Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol a/neu ein Hamodau Cydnabod lefel cymhwyster TGAU.

Graddio

17. Rhaid i drefniadau graddio ac adrodd ar Gymwysterau TGAU Cymeradwy sicrhau'r canlynol:
    17.1. yr adroddir cyrhaeddiad sy'n ddigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif TGAU ar raddfa wyth gradd o A* i G, lle mai A* yw'r radd uchaf
    17.2. yr adroddir cyrhaeddiad sy'n annigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif TGAU fel Annosbarthedig neu U
    17.3. Adroddir ar y radd ar gyfer TGAU Dwyradd Cymeradwy yn y fformat canlynol:
    [Gofyniad i'w gadarnhau yn dilyn gwaith pellach gan Cymwysterau Cymru i archwilio manteision gwahanol ddulliau graddio mewn perthynas â TGAU Dwyradd.]

Cyflwyno cymwysterau i'w Cymeradwyo

18. Wrth gyflwyno math o gymhwyster TGAU i'w Gymeradwyo, rhaid i gorff dyfarnu ddarparu:
    18.1. dogfen fanyleb y cymhwyster
    18.2. deunyddiau asesu sampl, a
    18.3. dogfen esboniadol yn amlinellu'r Resymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster TGAU arfaethedig (Dogfen Resymeg[2])

19. Wrth gyflwyno math o gymhwyster TGAU i'w Gymeradwyo, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'n gofynion sy'n ymwneud â chyflwyno Dogfen Resymeg fel y nodir yn:
    19.1. y Ddogfen Reoleiddio hon, a'r
    19.2. Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol.

Gofynion yn ymwneud â chyflwyno Dogfen Resymeg

Testun Resymeg	Gofynion y Ddogfen Resymeg	
Y cymhwyster cyffredinol	TGAURR1	Rhaid diweddaru'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ym mhob cyflwyniad i gefnogi'r broses o adolygu a Chymeradwyo'r cymhwyster.
	TGAURR2	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut mae'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio ag Amod D2, a sut mae'r cymhwyster arfaethedig yn cydymffurfio â Chyfraith Cydraddoldeb. Wrth wneud hynny, a chan gyfeirio at ddatganiad polisi cyhoeddedig Cymwysterau Cymru ar gymhwyso themâu trawsbynciol Cwricwlwm i Gymru mewn cymwysterau Cymeradwy 14-16, rhaid i gorff dyfarnu esbonio sut y mae wedi ceisio barn grwpiau cydraddoldeb ac wedi ystyried y safbwyntiau hynny ac ystyriaethau cydraddoldeb eraill fel rhan o'i waith datblygu cymwysterau.

[2] Ni fwriedir cyhoeddi'r Ddogfen Resymeg.

Pwrpas a Nodau	TGAURR3	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau penodedig wedi'u datblygu a'u chwyddo, a sut mae'r dull hwn yn cefnogi pwrpas a nodau penodedig y cymhwyster
	TGAURR4	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gynrychioliadau, safbwyntiau, themâu a chyfraniadau, gan gynnwys rhai cymunedau (ac unigolion) Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Wrth wneud hynny, a chan gyfeirio at ddatganiad polisi cyhoeddedig Cymwysterau Cymru ar gymhwyso themâu trawsbynciol Cwricwlwm i Gymru mewn Cymwysterau Cymeradwy ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio: • sut mae wedi ystyried y defnydd o iaith a/neu derminoleg • sut mae'r corff dyfarnu wedi ceisio barn grwpiau amrywiol o bobl, gan gynnwys yr amrywiaeth o safbwyntiau a chyfraniadau a wneir gan gymunedau ethnig (ac unigolion) ethnig lleiafrifol, drwy ei drafodaethau â rhanddeiliaid, a sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried • y ffactorau y mae wedi'u hystyried wrth benderfynu a ellir cynnwys cyfleoedd yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo perthnasol yn y cymhwyster, ac i ba raddau, a'r • rhesymau dros ei benderfyniad yn hynny o beth.
	TGAURR5	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio sut mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol (gan gynnwys cynaliadwyedd a Chynefin) wedi'u hystyried a, lle bo'n briodol, wedi'u hadlewyrchu yn y cymhwyster. Wrth wneud hynny, a chan gyfeirio at ddatganiad polisi cyhoeddedig Cymwysterau Cymru ar gymhwyso themâu trawsbynciol Cwricwlwm i

		Gymru mewn Cymwysterau Cymeradwy ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio: • y ffactorau y mae wedi'u hystyried wrth benderfynu a ellir cynnwys cyfleoedd yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo perthnasol yn y cymhwyster, ac i ba raddau, a'r • rhesymau dros ei benderfyniad yn hynny o beth.
	TGAURR6	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio sut mae'r themâu trawsbynciol sy'n weddill, sef addysg cydberthynas a rhywioldeb, hawliau dynol, ac addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith wedi'u hystyried a, lle bo'n briodol, wedi'u hadlewyrchu yn y cymhwyster Wrth wneud hynny, a chan gyfeirio at ddatganiad polisi cyhoeddedig Cymwysterau Cymru ar gymhwyso themâu trawsbynciol Cwricwlwm i Gymru mewn Cymwysterau Cymeradwy ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio: • y ffactorau y mae wedi'u hystyried wrth benderfynu a ellir cynnwys cyfleoedd yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo perthnasol yn y cymhwyster, ac i ba raddau, a'r • rhesymau dros ei benderfyniad yn hynny o beth.
Teitl a Maint y Cymhwyster	TGAURR7	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut y gellir cyflwyno cynnwys y cymhwyster arfaethedig o fewn yr ystod ragnodedig ar gyfer Dysgu dan Arweiniad (GLH) fel y nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc perthnasol.
Cynnwys y pwnc	TGAURR8	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio'r dull o ymhelaethu a/neu ychwanegu at gynnwys y cymhwyster a ragnodir gan y Meini Prawf Cymeradwyo Lefel Pwnc, gan gynnwys y Resymeg dros y penderfyniadau a wnaed. Rhaid i'r esboniad gyfeirio, lle bo'n berthnasol, at themâu trawsbynciol Cwricwlwm i Gymru (gweler TGAURR4-6).

		Rhaid i'r Ddogfen Resymeg esbonio sut mae'r penderfyniadau a wnaed yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng Hylawrwydd, Ymgysylltiad, Dibynadwyedd a Dilysrwydd.
	TGAURR9	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio sut mae'r cynnwys wedi'i strwythuro o fewn y cymhwyster, gan gynnwys lle bo'n briodol, rhesymau dros unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y corff dyfarnu Rhaid i'r Ddogfen Resymeg esbonio sut mae'r penderfyniadau a wnaed yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng Hylawrwydd, Ymgysylltiad, Dibynadwyedd a Dilysrwydd.
	TGAURR10	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut mae'r cymhwyster yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Wrth wneud hynny, rhaid i gorff dyfarnu esbonio sut mae'r cymhwyster: • yn creu cyfleoedd i Ddysgwyr ddatblygu eu Sgiliau Cyfannol, ac • yn creu cyfleoedd i Ddysgwyr ddatblygu eu Sgiliau Trawsgwricwlaidd.
	TGAURR11	Ar gyfer cymwysterau **haenog**, mae'n rhaid i'r Ddogfen Resymeg esbonio pam mae'r cynnwys sydd ym mhob haen wedi'i ddewis.
	TGAURR12	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig, lle bo'n briodol, ddarparu gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw destunau, cynhyrchion neu ysgogiadau sydd wedi'u cynnwys a rhoi esboniad o sut a pham y dewiswyd y rhain. Rhaid i'r esboniad gyfeirio at sut mae'r dewisiadau a wnaed yn cefnogi themâu trawsbynciol Cwricwlwm i Gymru (gweler TGAURR4-6)
Profiadau	TGAURR13	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio sut y cyfeirir at y profiadau, fel y nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc perthnasol, yn y fanyleb a deunyddiau eraill, a sut mae'n cyfleu pwysigrwydd y profiadau hynny mewn addysgu a dysgu.
Amcanion Asesu	TGAURR14	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio, lle bo'n berthnasol, y

		rhesymau dros benderfyniad y corff dyfarnu i ddewis pwysoliadau'r Amcanion Asesu o fewn y goddefiannau a nodir.
	TGAURR15	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio'r rhesymau dros ddyrannu amcanion asesu ar draws yr asesiadau.
Cynllun Asesu	TGAURR16	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio ei ddull o ymdrin â chynnwys dros amser, gan gynnwys nifer y cyfresi lle byddai sylw llawn yn cael ei roi i'r cynnwys a sut mae'r dull yn lleihau rhagweladwyedd.
	TGAURR17	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut y mae asesiadau'n Gymaradwy ar draws unrhyw opsiynau a llwybrau.
	TGAURR18	Ar gyfer cymwysterau **di-haen**, rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos bod pob asesiad: • yn addas ar gyfer yr holl ystod gallu y mae wedi'i dargedu ato, ac • yn gwahaniaethu'n briodol ar draws yr ystod graddau.
	TGAURR19	Ar gyfer cymwysterau **haenog**, rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos: • bod yr asesiad(au) ym mhob haen yn addas ar gyfer yr ystod gallu gyfan y maent wedi'u targedu atynt ac yn gwahaniaethu'n briodol ar draws yr ystod graddau, a • lle mae graddau'n gorgyffwrdd, bod cymaroldeb ar draws haenau.
	TGAURR20	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer cymwysterau unedol esbonio sut y caiff asesiadau eu hagregu.
	TGAURR21	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio'r strwythur asesu, gan gynnwys nifer a phwysoliad asesiadau, a dyraniadau marciau ar gyfer asesu unedau / Cydrannau.
	TGAURR22	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio ar gyfer pob Cydran asesu, ei resymau dros ddewis: • y dull/methodoleg • y dyluniad • hyd

		• dyraniadau marciau ar gyfer eitemau/tasgau, a • pwysoliad amcanion asesu.
	TGAURR23	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut mae pob Cydran asesu unigol, a'r cynllun asesu, yn sicrhau bod y trefniadau asesu: • yn Hylaw i Ganolfannau ac i Ddysgwyr • yn ddigon Diddorol i Ddysgwyr • yn sicrhau Dibynadwyedd canlyniadau asesu, ar lefel Canolfan a chenedlaethol a thros amser • yn ffurf Ddilys o asesu ar gyfer y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu. Rhaid i'r Ddogfen Resymeg esbonio'r rhesymau dros unrhyw benderfyniadau y mae'r corff dyfarnu wedi'u gwneud er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng Hylawrwydd, Ymgysylltiad, Dibynadwyedd a Dilysrwydd.
	TGAURR24	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio'r math a'r ystod o dasgau asesu sydd wedi'u cynnwys ym mhob Cydran a'u perthynas â'r cynnwys a'r amcanion asesu.
	TGAURR25	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio'r amodau asesu a'r lefelau rheolaeth, a pham mai'r rhain, at ei gilydd, yw'r dull mwyaf cymesur.
	TGAURR26	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio cynnwys unrhyw asesiadau llyfr agored neu asesiadau a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw.
	TGAURR27	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio dyluniad y cynlluniau marcio a sut y cânt eu cymhwyso.
Dulliau Digidol	TGAURR28	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio, lle bo'n berthnasol, sut y gall Dysgwyr sydd angen Addasiadau Rhesymol gael mynediad at unrhyw asesiadau digidol yn unol ag Amod G6.
	TGAURR29	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddisgrifio, lle bo'n berthnasol, y camau y mae wedi'u cymryd i liniaru effeithiau negyddol ar Ddysgwyr a Chanolfannau o ganlyniad i unrhyw

		amhariad technegol cyn neu yn ystod unrhyw asesiad digidol-yn-unig a sicrhau parhad yr asesiad.
	TGAURR30	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio, lle bo'n berthnasol, sut y bydd yn sicrhau bod y safon perfformio ar gyfer asesiad digidol yn Gymaradwy â'r rhai ar gyfer unrhyw ffurfiau cyfochrog a ddarperir ar bapur.
Amseru ac Argaeledd Asesiadau	TGAURR31	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig ddangos sut mae ei ddull o amseru asesiadau yn cydymffurfio â'r Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol a/neu Amodau Cydnabod lefel cymhwyster TGAU.
Ailsefyll	TGAURR32	Rhaid i'r Ddogfen Resymeg ar gyfer y cymhwyster arfaethedig esbonio ei ddull o ailsefyll ac ailgyflwyno, gan gynnwys sut mae ei ddull yn cydymffurfio â'r Meini Prawf Cymeradwyo lefel pwnc TGAU perthnasol a/neu Amodau Cydnabod lefel cymhwyster TGAU.